# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Woodlands**

**The Woodlands**
**Cadle Mill**
**Abertawe**
**SA5 4PA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Woodlands

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Aston Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Ionawr 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn cael cymorth a gofal da gan weithwyr gofal profiadol ac ymrwymedig sydd wedi'u hyfforddi'n dda, a thîm rheoli cefnogol. Roedd yr holl adborth a gasglwyd fel rhan o'r arolygiad yn gadarnhaol am y diwylliant yn y gwasanaeth a rhoddodd y bobl wybod i ni eu bod yn hapus. Mae prosesau da ar waith i helpu i sicrhau bod y bobl yn cymryd gymaint o ran â phosibl wrth gynllunio cymorth. Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ac mae'r rheolwr cofrestredig, y dirprwy reolwr a'r unigolyn cyfrifol yn weladwy yn y gwasanaeth. Gwnaethom ofyn i'r lefelau staffio gyda'r nos gael eu hadolygu a'u cynyddu er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ymateb i unrhyw argyfyngau yn briodol ac yn ddiogel.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, mae'n lân ac yn cael ei ddarparu yn unol â'r amcanion yn y datganiad o ddiben. Caiff gwiriadau diogelwch ac amserlenni gwasanaeth eu cwblhau yn unol â'r canllawiau a'r gofynion cyfredol Mae gwiriadau recriwtio cadarn ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant trwyadl i gyflawni eu swyddi yn fedrus. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym fod y gwasanaeth wrthi'n cryfhau'r broses o adolygu cynlluniau personol a chyfnodau sefydlu'r staff ymhellach.

## Llesiant

Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a chefnogol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y gwasanaeth. Caiff y bobl gymorth i gynnal a datblygu sgiliau, megis cwblhau tasgau yn y cartref yn ogystal â mynd allan i'r gymuned lle y bo'n briodol. Mae'r bobl yn teimlo'n gartrefol ac mae'n ymddangos eu bod yn mwynhau byw yn y gwasanaeth. Caiff y gweithwyr gofal a'r rheolwyr amrywiaeth eang o hyfforddiant craidd ac arbenigol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion y bobl a'u helpu i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r holl weithwyr gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (y rheoleiddiwr staff gofal cymdeithasol). Gofynnwyd i'r darparwr drefnu bod staff ychwanegol ar gael gyda'r nos er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar waith i reoli argyfyngau. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu trylwyr a manwl i'r staff eu dilyn.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal yn dda, mae'n ddiogel ac yn cael ei ddarparu yn unol â'r amcanion a ddiffiniwyd yn y datganiad o ddiben. Mae'r bobl yn ddiogel a gwelwyd arferion megis gwiriadau tân a thystysgrifau diogelwch trydan yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom edrych ar rai ystafelloedd gwely a dangosodd y bobl eu heitemau a'u haddurniadau personol. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaethom nodi nad oedd y system wresogi'n gweithio'n iawn. Mae'r system wedi cael ei hatygyweirio ers hynny ac mae bellach yn gweithio'n iawn. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer rhoi meddyginiaeth a chaiff archwiliadau rheolaidd eu cwblhau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth ac yn ymweld yn aml. Mae'r rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio ansawdd y gofal a ddarperir yn dda. Cawsom wybod gan y gweithwyr gofal a'r bobl fod y cyfathrebu â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn dda ac y cymerir camau prydlon a phriodol mewn ymateb i unrhyw faterion y rhoddir gwybod amdanynt. Mae'r cynlluniau personol yn glir, yn llawn gwybodaeth ac yn fanwl. Maent yn canolbwyntio ar nodau a dyheadau'r bobl ac yn cysylltu'n dda â chofnodion y staff gofal a phrosesau cynllunio ar gyfer risg. Mae'r darparwr wedi cyflwyno system ar-lein newydd ar gyfer cynllunio gofal yn ddiweddar, a rhoddwyd gwybod ei bod yn gweithio'n dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr yn bwriadu cryfhau'r prosesau presennol ar gyfer adolygu cynlluniau personol a chyfnodau sefydlu'r staff.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y darparwr gynlluniau personol cyfredol sy'n nodi sut y dylid darparu gofal er mwyn diwallu anghenion cymorth. Mae'r cynlluniau cymorth personol yn dangos beth sydd o bwys i'r unigolyn a'r ffordd orau o'i helpu i gyflawni ei nodau. Ystyrir gallu'r bobl i fod yn rhan o'r broses cynllunio gofal. Lle nad oedd y bobl o bosibl yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses, gwelsom fod trefniadau cynllunio er lles pennaf yr unigolyn ac egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) yn cael eu dilyn. Mae'r cymorth a ddarperir yn cael ei gofnodi'n fanwl ac mae'n dangos bod yr anghenion a nodwyd yn cael eu monitro a'u hadolygu. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r darparwr wedi cyflwyno system cynllunio cymorth electronig ar-lein newydd. Dywedodd y rheolwr wrthym ei bod yn gweithio'n dda a bod y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal yn gyfarwydd â hi erbyn hyn. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol cryfhau'r broses adolygu cynlluniau personol bresennol er mwyn nodi cyfraniad y bobl ac eraill yn llawn. Dywedodd y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol wrthym eu bod yn ymgynghori â darparwr y system o hyd er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu eu hanghenion yn llawn ac y byddant yn adrodd yn ôl ar hyn. Caiff cofnodion o apwyntiadau iechyd a chamau cysylltiedig eu dogfennu'n glir. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod prosesau trosglwyddo rheolaidd yn cael eu cynllunio rhwng shifftiau er mwyn sicrhau parhad y gofal.

Mae gweithwyr gofal gwybodus, cymwys a medrus yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae llawer o'r staff gofal presennol, gan gynnwys y rheolwyr, wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd. Golyga hyn fod y bobl yn cael budd o staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gallu ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. Gwnaethom siarad â'r bobl yn ystod yr arolygiad, a dywedodd un person wrthym "*it's great here, everyday doing something different".* Dywedodd person arall *"I am not patronised and I am treated like an adult and not a child here".* Dywedodd rhai o'r gweithwyr gofal wrthym fod y lefelau staffio gyda'r nos yn isel. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli wrth ymyl un arall sy'n rhan o'r un grŵp darparu. Dim ond un gweithiwr gofal ar ddihun a geir ar hyn o bryd, gan weithio dros nos yn y ddau wasanaeth. Mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, pe bai argyfwng a bod angen i ddau weithiwr gofal ymateb iddo, byddai un gwasanaeth yn cael ei adael heb unrhyw staff. Er bod trefniadau iechyd a diogelwch trylwyr a chadarn ar waith yn y gwasanaeth, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau diogel ar waith i reoli meddyginiaeth ac mae iechyd y bobl yn cael ei hybu drwy arferion da. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo. Gwelwyd bod cofnodion o wiriadau tymheredd dyddiol yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Caiff Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) eu cwblhau fel sy'n briodol gyda llofnodion y gweithwyr gofal sy'n bresennol. Mae prosesau da ar waith ar gyfer archebu ac archwilio meddyginiaeth yn y gwasanaeth, sy'n lleihau'r risg o wallau. Mae'r staff sy'n helpu'r bobl gyda'u meddyginiaeth wedi'u hyfforddi ac ystyrir eu bod yn gymwys i wneud hynny.

Caiff y bobl eu diogelu rhag esgeulustod a chamdriniaeth gan fod y gweithwyr gofal yn adnabod yr arwyddion ac yn gwybod sut i fynegi pryderon. Mae'r gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant diogelu ac mae gweithdrefnau a chynlluniau risg clir ar waith i'w tywys a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd glân, diogel, sydd mewn cyflwr da ac wedi'i adeiladu at y diben, lle caiff risgiau eu nodi a'u rheoli'n briodol. Dangoswyd holl ardaloedd dan do ac ardaloedd awyr agored y cartref i ni, gan gynnwys rhai ystafelloedd gwely. Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr, wedi'u haddurno'n ddeniadol ac wedi'u personoli ag eiddo a diddordebau'r bobl. Mae gan bob ystafell wely ensuite heblaw am un. Roedd y bobl yn ymfalchïo wrth ddangos eu hystafelloedd gwely a'u heitemau personol i ni. Mae ystafell weithgareddau allanol y gall y bobl fynd iddi i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu. Gwelsom bobl mewn lolfa gymunedol fawr yn mwynhau chwarae pŵl ac yn gwylio'r teledu hefyd.

Mae gan y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd o bump (da iawn), sef y sgôr uchaf y gellir ei chael gan Iechyd yr Amgylchedd. Gwnaethom edrych ar y gegin a gwelsom fod angen gosod drysau newydd ar rai o'r cypyrddau am fod ôl traul a difrod arnynt. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y bydd hyn yn cael sylw. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a ddarperir a'u bod yn cael dewis yr hyn y maent yn ei fwyta hefyd. Mae gardd ddiogel a braf y tu allan ac mae'r gwasanaeth mewn ardal rannol wledig gyda golygfeydd o gefn gwlad. Mae dodrefn patio a sied smygu y gall y bobl eu defnyddio hefyd.

Dywedodd y gweithwyr gofal a'r rheolwyr wrthym yr eir i'r afael ag unrhyw faterion cynnal a chadw a nodir yn brydlon. Gwelsom fod gwiriadau gwasanaeth rheolaidd yn cael eu cynnal gan weithwyr proffesiynol allanol. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau trydan, dŵr a phrofion dyfeisiau cludadwy (PAT). Gwiriwyd y tystysgrifau diogelwch a gwelsom eu bod yn gyfredol. Mae gweithdrefnau diogelwch tân ar waith ac mae aelod penodol o'r staff yn gyfrifol am gynnal gwiriadau. Mae cynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng cyfredol ar waith ar gyfer pawb. Roedd yr holl gynhyrchion COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) a welsom yn cael eu storio'n gywir ac yn ddiogel. Mae ystafell arbennig ar gyfer storio meddyginiaethau a gaiff ei chadw dan glo, a chaiff tymereddau eu gwirio a'u cofnodi'n ddyddiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol, rheolwr y gwasanaeth a'r dirprwy reolwr wedi datblygu prosesau clir a chadarn i oruchwylio'r gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Cawsom wybod gan y gweithwyr gofal a'r rheolwyr fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd a'i fod yn gefnogol ac yn hawdd mynd ato. Roedd yr Unigolyn Cyfrifol yn bresennol ac yn cyfarfod â'r rheolwyr ar ddiwrnod ein hymweliad. Gwelsom gofnodion o ymweliadau gan gynnwys trafodaethau â'r bobl a'r rheolwyr. Gwelsom yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal hefyd sy'n cynnwys trosolwg manwl o'r gwasanaeth gan gynnwys adborth gan y bobl a'r gweithwyr gofal.

Mae cofnodion hyfforddiant y gweithwyr yn dangos bod bron pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r hyfforddiant craidd ac mae hyn yn gyson â'r datganiad o ddiben. Caiff hyfforddiant arbenigol mewn meysydd fel awtistiaeth, dementia, rheoli ymddygiad a therapi ymddygiad gwybyddol ei ddarparu hefyd. Dywedodd y rheolwr wrthym fod pob gweithiwr gofal wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae dirprwy reolwr a rheolwr y gwasanaeth yn gymwys i lefel 5 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal naill ai'n gweithio tuag at lefel 2 neu 3 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu wedi cwblhau'r lefel. Mae hyn yn dangos bod y gwasanaeth yn hyrwyddo ac yn cefnogi dysgu a datblygiad y staff.

Gwelsom gofnodion recriwtio'r gweithwyr a gwelsom fod prosesau da yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon cyflogaeth a gwiriadau prawf adnabod. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod yn bwriadu ail-gyflwyno llyfrau gwaith sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n cyd-fynd â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (Gofal Cymdeithasol Cymru). Cadarnhaodd y gweithwyr gofal eu bod wedi cael hyfforddiant sefydlu trwyadl pan wnaethant ddechrau yn y gwasanaeth a'u bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd wedi'u cynllunio. Gwelsom drosolwg o sesiynau goruchwylio ar gyfer pob gweithiwr gofal a oedd yn cadarnhau hyn, gyda dogfennau cyfatebol yn y ffeiliau personél.

Mae polisïau a gweithdrefnau clir a chadarn i'r staff eu dilyn. Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau, gan gynnwys; chwythu'r chwiban a diogelu. Mae'r polisi diogelu wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac mae'n cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer diogelu yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Ddiben yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 34 | Mae'r trefniadau staffio presennol yn annigonol pe bai argyfwng yn digwydd yn ystod y nos. Mae angen i'r darparwr sicrhau bod lefelau staffio digonol ar waith yn ystod y nos er mwyn ymateb i sefyllfa frys pe bai un yn codi. | Newydd |
| 44 | Cynhaliwyd arolygiad llawn ar 6 Ionawr 2023.  Fel rhan o'r arolygiad hwn, nodwyd bod llawer o wresogyddion trydan symudol yn y lolfa gymunedol ac mewn ystafell wely a welwyd.  Cawsom wybod bod hyn am fod pwmp gwres diffygiol mewn system wresogi newydd. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/04/2024